

Atodiad C - Y Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd

Mae'r digwyddiad wedi cael ei adrodd a'i gofnodi drwy Datix Cymru a'r cofnod gofal cleifion. Cynhelir adolygiad o'r digwyddiad a deuir i gytundeb, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael bryd hynny, bod yr amodau a nodir yn Atodiad A wedi cael eu bodloni a bod dyletswydd gonestrwydd yn gymwys.

Hysbysiad

Ar ôl dod yn ymwybodol gyntaf bod y ddyletswydd wedi cael ei sbarduno (sef y dyddiad dechrau ar gyfer dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd), rhaid i'r corff GIG roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth/neu'r un sy'n gweithredu ar ei ran.

DS: Os yw'r hysbysiad uniongyrchol yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth y corff GIG yn ymwybodol o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, dylid darparu a chofnodi esboniad o'r rheswm, ond nid yw hyn yn golygu bod gan gyrff GIG fis i roi'r hysbysiad.

Dylai'r hysbysiad cychwynnol gael ei wneud '**yn uniongyrchol**'

(Mae gan gyrff y GIG ddisgresiwn ynghylch pa ddull o gyfathrebu uniongyrchol sydd fwyaf priodol). Fodd bynnag, dylid ystyried yr hyn sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth/yr unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran, yn ogystal a ffactorau megis difrifoldeb y niwed a achoswyd.

GALL 'YN UNIONGYRCHOL' OLYGU:

Dros y ffôn, drwy alwad fideo neu uniongyrchol

Pwrpas yr hysbysiad wyneb yn wyneb

- Cydnabod beth sydd wedi digwydd
- Cynnig ymddiheuriad (gweler Atodiad E).
- Egluro pa wybodaeth oedd yn hysbys bryd hynny am yr hyn sydd wedi digwydd.
- Egluro'r camau nesaf o ran beth fydd yn digwydd nesaf. (gweler Atodiad F).
- Cynnig cefnogaeth (gweler Atodiad D).
- Darparu manylion y pwynt cyswllt.

Unwaith y bydd hysbysiad uniongyrchol wedi ei wneud, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig hefyd i'r defnyddiwr gwasanaeth/unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran **o fewn dau ddiwrnod gwaith**.

Pwrpas yr hysbysiad ysgrifenedig

- Ailddatgan yr ymddiheuriad llafar (gweler Atodiad E).
- Rhannu unrhyw wybodaeth gychwynnol am yr hyn sy'n hysbys am yr hyn sydd wedi digwydd.
- Egluro'r camau y bwriedir eu cymryd i ymchwilio i'r canlyniad andwyol hysbysadwy, a'r amserlenni (gweler Atodiad F).
- Rhoi manylion y pwynt cyswllt.
- Rhoi manylion unrhyw gymorth sydd ei angen (gweler Atodiad D).

DS: Trowch at adran 7 y Canllawiau Dyletswydd Gonestrwydd i weld yr holl ffactorau mae'n rhaid rhoi sylw iddynt.